Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

Hybrid – Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom

Dyddiad: Dydd Mercher, 2 Mawrth 2022

Amser: 10.00 – 12.40

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn: http://senedd.tv/cy/12640

Hybrid

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau o'r Senedd:	Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd) Peter Fox AS Mike Hedges AS Jack Sargeant AS (yn lle Rhianon Passmore AS)
Tystion:	Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol Sharon Bounds, Llywodraeth Cymru Emma Watkins, Llywodraeth Cymru
Staff y Pwyllgor:	Owain Roberts (Clerc) Georgina Owen (Ail Glerc) Mike Lewis (Dirprwy Glerc) Joanne McCarthy (Ymchwilydd) Christian Tipples (Ymchwilydd) Ben Harris (Cynghorydd Cyfreithiol) Charlotte Barbour (Cynghorwr Arbenigol)

Rhag-gyfarfod preifat - Anffurfiol (09.45-10.00)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod hybrid y Pwyllgor Cyllid.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhianon Passmore AS. Roedd Jack Sargeant AS yn bresennol ar ei rhan fel dirprwy.

2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.1 PTN 1 - Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol - 15 Chwefror 2022

2.2 PTN 2 - Llythyr gan Archwilio Cymru: Cynllun Ffioedd Archwilio Cymru 2022-23 - 15 Chwefror 2022

2.3 PTN 3 - Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Ymgysylltu â Phlant a Phobl Ifanc - 18 Chwefror 2022

3 Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2021-22: Sesiwn dystiolaeth

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol; Sharon Bounds, Dirprwy Gyfarwyddwr, Rheoli Ariannol; ac Emma Watkins, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyllid a Busnes y Llywodraeth ynghylch Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2021-22.

3.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu'r eitemau a ganlyn i'r Pwyllgor:

- Diweddariad ar y newidiadau i gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22 sydd wedi'u cynnwys yn Amcangyfrifon Atodol y DU 2021-22, a'r effaith ar y cyllid sydd ar gael am weddill y flwyddyn.
- Diweddariad ar y gorwariant ar wasanaethau gofal iechyd sydd wedi ei ddileu yn Lloegr, ac unrhyw symiau canlyniadol Barnett a gafodd Llywodraeth Cymru o ganlyniad.
- Y wybodaeth ddiweddaraf am y dyraniad cyllid ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn y sector gwirfoddol, yn enwedig hosbisau a gofalwyr di-dâl.
- Y wybodaeth ddiweddaraf am y dyraniad cyllid ar gyfer y cwricwlwm newydd, yn enwedig amcanion penodol y cyllid hwn.
- Y wybodaeth ddiweddaraf am y dyraniad cyllid ar gyfer uwchraddio adeiladau ysgolion mewn perthynas â darparu prydau ysgol am ddim.
- Y wybodaeth ddiweddaraf am y gwerthusiad ffurfiol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar ei chynlluniau cymorth busnes a gyflwynwyd yn ystod pandemig COVID-19.
- Y wybodaeth ddiweddaraf am waith modelu sy'n cael ei wneud mewn perthynas â bil cyflogau'r sector cyhoeddus yn y dyfodol.

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod a'r cyfarfod ar 11 Mawrth 2022.

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

5 Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2021-22: Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth.

6 Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu)? Trafod y materion allweddol

6.1 Trafododd y Pwyllgor y materion allweddol a chytunodd i ailedrych arnynt yn ei gyfarfod ar 11 Mawrth.

7 Trefniadau ariannu ar ôl yr UE: Trafod y papur cwmpasu

7.1 Trafododd y Pwyllgor y papur cwmpasu a chytunodd i gynnal ymchwiliad i drefniadau ariannu ar ôl yr UE.